**EITEM AR YR AGENDA: 20**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19 Mawrth 2012**

**Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Cyflwyno argymhelliad Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i ffurfio Bwrdd Cymunedau Diogelach Rhanbarthol.

2 Cyflwyno'r Cytundeb Partneriaeth creiddiol i'r Bwrdd.

## Cefndir

3 Yn Rhagfyr 2010 fe gytunwyd, fel rhan o Adolygiad Partneriaeth Gogledd Cymru, y buasai Bwrdd Cymunedau Diogelach Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru yn cael ei sefydlu erbyn 2012.

4 Buasai'r Bwrdd hwn yn cymryd cyfrifoldeb am lywodraethu, comisiynu rhanbarthol a throsolwg ar drefniadau cyflenwi gweithredol Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid. Buasai hefyd yn dylanwadu ar ddarparu a datblygu gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol.

5 Buasai'r Bwrdd yn cael ei gefnogi gan drefniadau gweithredol is-ranbarthol. Buasai'r partneriaethau llai ffurfiol hyn yn gweithredu mewn ardaloedd dwy sir, gan adeiladu ar drefniadau partneriaeth presennol neu rai sy'n datblygu. Yr ardaloedd hyn yw:

- Ynys Môn / Gwynedd
- Conwy / Sir Ddinbych
- Sir y Fflint / Wrecsam

6 Bydd y Bwrdd yn cydnabod a pharchu gwahaniaethau ar y lefel is-ranbarthol. Bydd modd gweithio mewn ffyrdd gwahanol o fewn pob is-ranbarth e.e. gall y timau gweithredol presennol uno yn ffurfiol i wahanol raddau. Buasai'r Bwrdd yn rhoi arweiniad ar flaenoriaethau'r grwpiau is-ranbarthol er mwyn sicrhau mwy o gysondeb wrth gyflawni safonau perfformiad a deilliannau.

7 Nod arall wrth sefydlu'r Bwrdd yw braenaru'r tir ar gyfer partneriaethau 'strategol' rhanbarthol pellach lle mae achos da dros wneud hyn. Bydd creu Bwrdd Cymunedau Diogelach yn golygu y gellir rhoi prawf ar ddull rhanbarthol a'i gymhwyso wedyn wrth lunio partneriaethau yn y dyfodol, megis Plant a Phobl Ifanc ac Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

8 Mae'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol wedi cefnogi argymhellion canlynol y Grŵp Prosiect, a sefydlwyd i gynnig Bwrdd Cymunedau Diogelach, ar gyfer eu cyflwyno i'r holl gyrff sy'n bartneriaid ac a fuasai i gyd yn rhan o'r Bwrdd newydd:

## Rôl Statudol a Strategol Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru

9 Bydd y Bwrdd yn ymgymryd â'r cyfrifoldebau statudol a strategol rhanbarthol sydd gan grwpiau strategol neu weithredol lleol ar hyn o bryd. Bydd yn:

- Datblygu a chytuno'r weledigaeth ar gyfer gogledd Cymru o ran Diogelwch Cymunedol a Chyfiawnder Ieuenctid.
- Atebol i'r Swyddfa Gartref am gynhyrchu'r Asesiad Strategol a'r Cynllun Diogelwch Cymunedol.
- Gosod yr amcanion strategol eang er mwyn i'r partneriaethau gweithredol is-ranbarthol gyflawni nodau'r Cynllun Diogelwch Cymunedol.
- Goruchwylio a datblygu cynllunio strategol gan ganolbwyntio i ddechrau ar feysydd polisi penodol lle mae'r perfformiad ar draws y rhanbarth yn anghyson.
- Monitro perfformiad, adnabod a chymell arferion da ac annog cyrff i wella'n barhaus a sicrhau y cydymffurfir â'r 'dilysnodau arfer effeithiol' fel y'u nodwyd yn statudol.
- Cyfarwyddo a chynnal asesiadau o anghenion ac ymgynghoriad cyhoeddus yn ôl yr angen.

- Hyrwyddo prif ffrydio diogelwch cymunedol ar lefel strategol gyda chyrff sy'n bartneriaid.
- Hyrwyddo cydweithio wrth lunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus lleol.
- Lleihau maint a chost y trefniadau sy'n sail i bartneriaethau ar lefelau is-ranbarthol a lleol.

**Llywodraethu**

10 Bydd gan y Bwrdd statws Cyd-bwyllgor ffurfiol fel y'i diffiniwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Bydd Cytundeb Partneriaeth (ynghlwm) yn nodi'r:

- Aelodaeth
- Swyddogaethau a chyfrifoldebau
- Tymor
- Trefniadau adrodd
- Rheoli perfformiad
- Rheoli risg
- Datrys anghydfod
- Protocol ar gyfer adolygu'r Bartneriaeth

11 Agorwyd trafodaethau â Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref a chyrff rheoleiddio eraill ynghylch y model newydd hwn o weithio. Hyd yn hyn maent yn cefnogi'r cynnig.

**Comisiynu a dyrannu adnoddau**

12 Yn y tymor byr, tasg y Bwrdd fydd llunio polisi, y cyfeiriad strategol a'r blaenoriaethau cyffredinol. Rhoddir swyddogaeth comisiynu iddo pan fydd y partneriaid yn hyderus bod y Bwrdd yn ddigon aeddfed i fabwysiadu'r dyletswyddau ychwanegol hyn.

13 Yn y pen draw gallai'r Bwrdd dderbyn cyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau a ariennir trwy grantiau gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru a dyrannu adnoddau i gefnogi gwaith y partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Chyfiawnder Ieuenctid gweithredol is-ranbarthol.

**Blaenraglen waith**

14 Byddai gan y Bwrdd raglen waith ffurfiol gyda blaenoriaethau wedi'u llunio er mwyn cael effaith yn fuan. Ymhlith y blaenoriaethau y mae strategaeth atal troseddau ieuenctid, ymagwedd gyson at bolisi ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymagwedd at fynd i'r afael ar y cyd ag adolygiadau dynladdiad domestig.

**Gweithrediadau allweddol sydd i'w gwneud a'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn**

15 Cyfarfu'r Grŵp Prosiect sy'n cefnogi gwaith Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru am y trydydd tro, sef y tro olaf, ar 6 Rhagfyr 2011. Mae'r gwaith paratoadol a wnaed gan y Grŵp wedi creu fframwaith adeiladol ar gyfer y Bwrdd. Cynhyrchwyd dogfennau allweddol, sef:

(i) Cytundeb Partneriaeth, sy'n nodi cylch gwaith a swyddogaeth y Bwrdd (mae'r Cytundeb drafft i'w gael gyda'r adroddiad hwn);
(ii) Rhaglen waith gychwynnol;
(iii) Papurau manwl sy'n cynnig ymagwedd at y Bwrdd ar gyfer y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid.

16 Cadarnhaodd y Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol y cynnig ar gyfer ei gyflwyno i'r Cyngor Sir a chyrff eraill sy'n bartneriaid yn ei gyfarfod yn Ionawr 2012.

17 Y cam nesaf yw i'r cyrff sy'n aelodau ffurfiol o'r Bwrdd, sef yr asiantaethau sy'n bartneriaid statudol a ddiffiniwyd gan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, fabwysiadu'r cynnig yn ffurfiol a chytuno i enwebu aelodau ar gyfer blwyddyn newydd y Cyngor (Mai 2012 – Mai 2013).

18 Mae'r Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru yn edrych yn fanwl ar y model a ddatblygwyd. Mae'r ddau gorff rheoleiddio wedi mynegi eu cymeradwyaeth. Er ei bod yn ffordd newydd o weithio'n rhanbarthol, mae'n caniatáu i waith gweithredol barhau ar lefel is-ranbarthol.

19 Cynhelid cyfarfod cyntaf Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru mor fuan ag y bo modd ym mlwyddyn newydd y Cyngor a heb fod yn hwyrach na Gorffennaf 2012.

**Argymhellion**

20 Gofynnir i Aelodau:

(i) gymeradwyo'r cynnig i greu Bwrdd Cymunedau Diogelach Rhanbarthol a bod y corff yn cymryd rhan lawn yn y Bwrdd o fis Gorffennaf 2012 ymlaen;

(ii) gytuno i benodi aelodau i'r Bwrdd yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mehefin;

(iii) gymeradwyo'r Cytundeb Partneriaeth sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.